Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi BYOD

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ **Error! Bookmark not defined.**

Cwmpas ........ **Error! Bookmark not defined.**

Cofrestru Dyfais ........ **Error! Bookmark not defined.**

Gwybodaeth Bwysig ........ **Error! Bookmark not defined.**

Gosodiadau Cydymffurfio â Gwybodaeth........ **Error! Bookmark not defined.**

Mynediad i Ddata Personol ........ **Error! Bookmark not defined.**

Storio Gwybodaeth Sensitif........ **Error! Bookmark not defined.**

Cyfrifoldeb Defnyddwyr ........ **Error! Bookmark not defined.**

Dyfeisiau Symudol ........ **Error! Bookmark not defined.**

Dyfeisiau Defnyddwyr ........ **Error! Bookmark not defined.**

Canlyniadau Diffyg Cydymffurfio ........ **Error! Bookmark not defined.**

Colli Dyfais ........ **Error! Bookmark not defined.**

Monitro a Mynediad ........ **Error! Bookmark not defined.**

Cefnogi Dyfeisiau BYOD........ **Error! Bookmark not defined.**

Polisiau gweithdrefnau a chanllawiau cysylltiedig y Brifysgol ........ **Error! Bookmark not defined.**

## Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu defnyddio dyfeisiau electronig personol i gyrchu a storio gwybodaeth y Brifysgol. Mae dyfeisiau o'r fath yn cynnwys ffonau clyfar, tabledi, gliniaduron, cyfrifiaduron bwrdd gwaith a thechnolegau tebyg. Gelwir hyn yn gyffredin yn 'Dod â'ch Dyfais eich Hun' neu BYOD.

Rhaid i bob defnyddiwr sy'n dymuno defnyddio eu dyfeisiau personol lynu wrth y polisi isod.

Rhaid i'r Brifysgol sicrhau ei bod yn cadw rheolaeth dros ddata sefydliadol y mae'n gyfrifol amdano, waeth pwy sy'n berchen ar y ddyfais a ddefnyddir i ymgymryd â'r prosesu. Rhaid iddi hefyd amddiffyn ei heiddo deallusol yn ogystal â grymuso staff i sicrhau eu bod yn amddiffyn eu gwybodaeth bersonol eu hunain.

## Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff, prosesyddion data, partneriaid, cyflenwyr a chontractwyr y Brifysgol a phob defnyddiwr awdurdodedig arall nad yw'n fyfyriwr sydd â mynediad i Ddata Sefydliadol ar ddyfeisiau BYOD.

At ddibenion y polisi hwn mae dyfeisiau personol neu rhai nad ydynt yn cael eu rheoli gan y Brifysgol yn cynnwys, ond ddim wedi'u cyfyngu i: Cyfrifiaduron bwrdd gwaith adref, tabledi (iPads ayb), ffonau clyfar, gliniaduron, offer recordio fideo a sain.

Rhaid i bob dyfais sy'n cyrchu neu brosesu data Sefydliadol lynu wrth y Polisi Defnydd Derbyniol Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r Polisi Defnydd Derbyniol TG.

Dymuna'r Brifysgol gefnogi staff wrth ddefnyddio technoleg a dyfeisiau BYOD, fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn gyda'n dyletswyddau cyfreithiol a rhaid i ni sicrhau ein bod yn cadw rheolaeth dros unrhyw ddata sefydliadol y mae'r Brifysgol yn gyfrifol amdano, waeth pwy sy'n berchen ar y ddyfais BYOD sy'n cael ei defnyddio i gyrchu'r data hwn.

Er mwyn cael mynediad i Ddata'r Brifysgol wrth ddefnyddio Dyfais BYOD Personol, mae rheoliadau diogelwch ar waith i amddiffyn Data'r Brifysgol. O ganlyniad, mae prosesau penodol y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn cael mynediad i Ddata'r Brifysgol o Ddyfais BYOD Bersonol.

Mae'r Brifysgol yn argymell yr opsiynau a ganlyn yn nhrefn pwysigrwydd. O ganlyniad, mae prosesau penodol y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn cael mynediad i Ddata'r Brifysgol o Ddyfais BYOD Bersonol.

**Opsiwn 1:**
Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd defnyddwyr yn cael mynediad i ddata a gwasanaethau'r Brifysgol o ddyfais a ddarperir gan y Brifysgol.

**Opsiwn 2:**
Os nad yw'n bosibl defnyddio dyfais a ddarparwyd gan y Brifysgol, lle y bo'n bosibl, dylai defnyddwyr gael mynediad i ddata y mae'r Brifysgol yn berchen arno a gwasanaethau Cwmwl fel E-byst Microsoft 365 o ddyfais BYOD drwy ddefnyddio rhyngwyneb Porwr Gwe ar y Rhyngrwyd.

**Opsiwn 3:**
Bydd rhaid i ddefnyddwyr sy'n dymuno cael mynediad i ddata y mae'r Brifysgol yn berchen arno a gwasanaethau Cwmwl fel E-byst drwy gymhwysiad symudol neu gymhwysiad bwrdd gwaith fel Office 365 gofrestru eu dyfais ar ddatrysiad rheoli Dyfais Symudol (MDM) y Brifysgol – Intune.

# Cofrestru Dyfais

Mae cofrestru dyfais yn galluogi i ddefnyddwyr gael mynediad i wasanaethau'r Brifysgol fel Microsoft Teams, OneDrive, E-byst o gymhwysiad fel Microsoft 365 sydd wedi'i osod ar ddyfais symudol neu liniadur/dyfais bwrdd gwaith.

Bydd cofrestru dyfais yn cofrestru eich dyfais gyda'r Drindod Dewi Sant ac yn cymhwyso polisïau cydymffurfio a allai gynnwys gofynion megis bod gan y ddyfais system weithredu a gefnogir, Gwrthfirws, Wal Dân ayb. Mae'r polisïau cydymffurfio hyn yn cadw eich dyfais BYOD a data'r Brifysgol yn ddiogel rhag mynediad anawdurdodedig.

Rhaid i ddyfeisiau BYOD fodloni'r polisïau cydymffurfio neu bydd mynediad i ddata y mae'r Brifysgol yn berchen arno yn cael ei flocio.

## Gwybodaeth Bwysig

Er mwyn sicrhau tryloywder, trwy gofrestru eich dyfais Windows neu Apple MacOS bersonol yn natrysiad MDM y Brifysgol, sef "Microsoft Intune", mae Microsoft yn rhoi i'r Drindod Dewi Sant y gallu i ailosod eich dyfais o bell i'r cyflwr y bydd ynddo pan ddaw allan o'r bocs. Er bod y gallu hwn yn golygu ei fod yn bosibl yn dechnegol i ailosod y math yma o ddyfais a gofrestrir yn bersonol o bell, polisi'r Drindod Dewi Sant yw na fydd FYTH yn ailosod dyfais bersonol. Nid yw'r gallu hwn ar gael i'r Brifysgol ar gyfer unrhyw ddyfeisiau Android neu Apple iOS personol sy'n cael eu cofrestru.

Cyn gwneud y penderfyniad i gofrestru eich dyfais rhaid i chi sicrhau bod copi o'ch data wedi'i gadw wrth gefn i ffynhonnell allanol fel gyrrwr allanol neu storfa gwmwl. Sut i Wneud Copi Wrth Gefn o'ch Data a Chadw eich Ffeiliau'n ddiogel (techtarget.com)

Trwy gofrestru eich dyfais, rydych yn cydnabod na fydd y Brifysgol yn gyfrifol am unrhyw ddata'n cael eu colli o'ch dyfais.

## Gosodiadau Cydymffurfio â Diogelwch

Trwy gofrestru eich dyfais, rydych yn cydnabod y bydd rheoliadau diogelwch gofynnol yn cael eu gosod ar eich dyfais bersonol i sicrhau bod data'r Brifysgol yn ddiogel.

Mae'r rheoliadau diogelwch hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

- Os nad ydych wedi gosod cyfrinair/PIN ar eich dyfais cyn ei gofrestru, bydd angen i chi osod cyfrinair/PIN priodol;
- Os oes cyfrinair/PIN ar eich dyfais cyn ei chofrestru nad yw'n bodloni'r gofynion cymhlethdod gofynnol, bydd angen i chi newid eich cyfrinair/PIN i un sy'n bodloni'r gofyniad hyd lleiaf ar gyfer cyfrinair diogelwch.
- Bydd eich dyfais yn cael ei gorfodi i gloi ei sgrin yn awtomatig ar ôl cyfnod o anweithgarwch.

Cyn gwneud y penderfyniad i gofrestru eich dyfais rhaid i chi sicrhau eich bod wedi darllen a derbyn gofynion Gosodiadau Cydymffurfio â Diogelwch BYOD y Brifysgol.

## Mynediad i Ddata Personol

Ni all y Brifysgol weld data personol o gwbl ar eich Dyfais BYOD Bersonol unrhyw bryd ar ôl i chi gofrestru eich dyfais yn Microsoft Intune.

Fodd bynnag, mae cofrestru eich dyfais yn golygu bod gwybodaeth benodol, fel model a rhif cyfresol y ddyfais, yn weladwy i staff cymorth TG awdurdodedig Y Drindod Dewi Sant sydd â mynediad gweinyddwr.

I ddarganfod mwy am yr hyn y gellir neu na ellir ei weld, ewch i dudalen we Gwybodaeth ar gyfer Cofrestru Dyfeisiau Microsoft.

I'ch helpu, rydym wedi crynhoi'r hyn y gellir ac na ellir ei weld ar eich Dyfais BYOD Bersonol.

**Gwybodaeth NA ALL Gweinyddwyr TG y Brifysgol FYTH ei gweld:**

- Hanes galwadau a phori'r we
- Negeseuon e-bost a thestun
- Cysylltiadau
- Calendr
- Cyfrineiriau
- Lluniau, yn cynnwys beth bynnag sydd yn yr ap ffotograffau neu'r rholyn camera
- Ffeiliau

**Gwybodaeth y GALL Gweinyddwyr TG y Brifysgol ei gweld:**

- Perchennog y Ddyfais
- Enw'r ddyfais
- Rhif Cyfresol y ddyfais
- Model y ddyfais, megis Google Pixel
- Gweithgynhyrchwr y ddyfais, megis Microsoft
- System weithredu a fersiwn, megis iOS 12.0.1
- IMEI y ddyfais
- Rhestren apiau ac enw apiau, megis Microsoft Word
    - Ar ddyfeisiau personol, dim ond y rhestren apiau a reolir gan y brifysgol y gall eich sefydliad ei gweld, sy'n cynnwys apiau gwaith ac ysgol a lawrlwythir o borth cwmni'r Brifysgol. Ni allant weld apiau personol.

## Storio Gwybodaeth Sensitif

- Ni ddylai defnyddwyr gadw gwybodaeth sy'n sensitif, personol, cyfrinachol nac o werth masnachol ar ddyfeisiau personol.
- Os nad yw mynediad ar-lein yn ddichonadwy a bydd arnoch angen dilys i gael mynediad i wybodaeth sensitif neu ei storio, megis cofnodion myfyriwr neu ariannol ar eich dyfais bersonol am gyfnod cyfyngedig, rhaid i chi geisio awdurdod gan eich Rheolwr Llinell. Yna, efallai y bydd angen i'r Brifysgol fonitro'r ddyfais ar lefel a allai effeithio ar eich preifatrwydd trwy gofnodi'r holl weithgarwch ar y peiriant. Gwneir hyn er mwyn sicrhau preifatrwydd, cyfanrwydd a chyfrinachedd y data hwnnw.
- Lle y bo'n hanfodol i wybodaeth sy'n perthyn i'r Brifysgol gael ei chadw ar ddyfais bersonol, dylid ei dileu cyn gynted ag y bo modd unwaith na fydd ei hangen mwyach, gan gynnwys gwybodaeth mewn e-byst.

- Cyfrifoldeb perchennog y BYOD yw sicrhau na chaiff gwybodaeth y Brifysgol ei gadael ar ddyfais bersonol am gyfnod penagored ac i wneud yn siŵr y caiff data ei ddileu cyn i ddyfais gael ei gwaredu, ei gwerthu neu ei throsglwyddo i drydydd parti.

## Cyfrifoldeb Defnyddwyr

Mae'r Brifysgol o ddifri ynghylch diogelwch gwybodaeth a systemau ac yn buddsoddi adnoddau sylweddol i ddiogelu data a gwybodaeth dan ei gofal. Rhaid i unigolion sy'n defnyddio BYOD gymryd cyfrifoldeb dros eu dyfais eu hunain a'i diogelwch.

### Dyfeisiau Symudol

Rhaid i ddefnyddwyr sy'n defnyddio dyfeisiau symudol fel Tabledi, Ffonau Clyfar ayb i gael mynediad i Ddata Sefydliadol a'i brosesu sicrhau:

- Eu bod yn darllen a chydymffurfio â'r polisi BYOD a Pholisi Defnydd Derbyniol y Brifysgol.
- Bod gan ddyfeisiau'r patsys diweddaraf a ddarperir gan y gweithgynhyrchwr, gwerthwr neu rwydwaith.
- Dim ond y Systemau Gweithredu diweddaraf sy'n cael eu cefnogi gan y gweithgynhyrchwr/gwerthwr y caiff dyfeisiau eu defnyddio - https://endoflife.date/
- Dim ond Microsoft Outlook maent yn ei ddefnyddio yn gleient e-byst a gefnogir at ddyfeisiau symudol.
- Eu bod yn defnyddio nodweddion diogelwch dyfais, fel PIN/Cyfrinair/Cyfringymal cryf, clo Biometrig a chlo awtomatig er mwyn helpu i amddiffyn y ddyfais pan nad yw'n cael ei defnyddio sy'n cydymffurfio â gosodiadau Cydymffurfio â Diogelwch y Brifysgol ar gyfer BYOD.
- Eu bod yn defnyddio amgryptio i sicrhau bod data sy'n cael ei storio/gwybodaeth yn cael ei ddiogelu pan fo'r ddyfais yn gorffwyso.
- Eu bod yn mewnosod a ffurfweddu gwasanaethau tracio a/neu sychu, megis 'Find My iPhone' Apple.
  'Where's My Droid' Android neu 'Find My Phone' Windows, lle bo'r nodwedd hwn ar y ddyfais.
- Mai dim ond cymwysiadau y gellir ymddiried ynddynt o ffynonellau dibynadwy/swyddogol a roddir ar y ddyfais.
- Na fyddant yn ceisio mynd o gwmpas mecanweithiau diogelwch y gweithgynhyrchwr mewn unrhyw ffordd, er enghraifft cynnal 'jailbreak' neu 'Root 1' ar y ddyfais os yw'n cael ei defnyddio i gael mynediad i wasanaethau TG y Brifysgol.

### Dyfeisiau Defnyddwyr

Rhaid i ddefnyddwyr sy'n defnyddio dyfeisiau fel Gliniaduron Windows/Gliniaduron MacOS, Linux i gael mynediad i Ddata Sefydliadol a'i brosesu sicrhau:

- Eu bod yn darllen a chydymffurfio gyda'r polisi BYOD hwn a Pholisi Defnydd Derbyniol y Brifysgol.
- Bod gan ddyfeisiau'r patsys diweddaraf a ddarperir gan y gweithgynhyrchwr, gwerthwr neu rwydwaith.
- Dim ond y Systemau Gweithredu diweddaraf sy'n cael eu cefnogi gan y gweithgynhyrchwr/gwerthwr y caiff dyfeisiau eu defnyddio - https://endoflife.date/
- Rhaid gosod diweddariadau meddalwedd a diogelwch o fewn un wythnos o'u rhyddhau.

- Rhaid bod gan ddyfeisiau amddiffyniad Gwrthfaleiswedd/Gwrthfirws cydnabyddedig, cyfredol, gweithredol.
- Rhaid bod wal dân leol yn weithredol ar ddyfeisiau lle y bo un ar gael.
- Eu bod yn sicrhau bod nodweddion diogelwch dyfais, fel PIN/Cyfrinair/Cyfringymal cryf, clo Biometrig ac awtomatig i helpu amddiffyn y ddyfais pan nad yw'n cael ei defnyddio sy'n cydymffurfio â gosodiadau Cydymffurfio â Diogelwch y Brifysgol ar gyfer BYOD.
- Dim ond Microsoft Outlook maent yn ei ddefnyddio yn gleient e-byst a gefnogir at ddyfeisiau symudol.
- Eu bod yn defnyddio amgryptio i sicrhau bod data sy'n cael ei storio/gwybodaeth yn cael ei ddiogelu pan fo'r ddyfais yn gorffwyso.
- Na fyddant yn llwytho lleidr-feddalwedd na chynnwys anghyfreithlon ar eu dyfeisiau.
- Na fyddant yn ceisio trechu mecanweithiau diogelwch gweithgynhyrchwr y ddyfais mewn unrhyw ffordd, er enghraifft cynnal 'jailbreak' neu 'Root 1' ar y ddyfais.
- Mai dim ond cymwysiadau y gellir ymddiried ynddynt o ffynonellau dibynadwy/swyddogol a roddir ar y ddyfais.
- Sicrhau bod gan feddalwedd sydd ar ddyfeisiau'r drwydded briodol.

### Canlyniadau Diffyg Cydymffurfio

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod, atal neu dynnu mynediad yn ôl i ddefnyddwyr a/neu ddyfeisiau neu feddalwedd os bydd yn ystyried nad yw'r diogelwch yn dderbyniol neu fod risgiau eraill i'w staff, myfyrwyr, busnes, enw da, gwasanaethau neu seilwaith.

### Colli Dyfais

Os caiff eich dyfais bersonol ei cholli/dwyn neu os caiff ei diogelwch ei gyfaddawdu mewn unrhyw ffordd, dylech roi gwybod i Ddesg Wasanaeth TG y Brifysgol ar unwaith er mwyn galluogi i'r Brifysgol dynnu'r mynediad i ddata'r Brifysgol yn ôl o'r ddyfais BYOD a gollwyd.

## Monitro a Mynediad

Ni fydd y Brifysgol yn monitro dyfeisiau personol fel mater o drefn. Er mwyn diogelu data'r Brifysgol, os amheuir bod eich dyfais wedi'i chyfaddawdu neu'n peri risg diogelwch posibl i ddata'r Brifysgol, ac os teimlir bod rhaid o safbwynt diogelwch, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i:

- Atal mynediad y ddyfais honno at rwydwaith gwifrog neu ddiwifr y Brifysgol, neu'r ddau;
- Atal mynediad i un o systemau penodol y Brifysgol;
- Cymryd camau angenrheidiol a phriodol i ddiddymu mynediad i wybodaeth y mae'r Brifysgol yn berchen arni.

Os bydd rhaid i'r Brifysgol gymryd unrhyw rai o'r camau hyn er mwyn helpu i ddiogelu data'r Brifysgol, bydd y Ddesg Wasanaeth TG yn cysylltu â pherchennog y ddyfais BYOD trwy ddulliau cyswllt swyddogol y Brifysgol.

## Cefnogi Dyfeisiau BYOD

Nid yw'r Brifysgol yn gyfrifol am gefnogi, cynnal, atgyweirio, yswirio nac ariannu mewn unrhyw ffordd ddyfeisiau y mae cyflogeion yn berchen arnynt, nac am golled na ddifrod, o ganlyniad i gymorth a chyngor a ddarperir.

## Polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau cysylltiedig y Brifysgol

- Technoleg a Systemau Gwybodaeth Polisi Defnydd Derbyniol
- Polisi Diogelu Data
- BYOD-Security-Compliance-Settings.pdf (uwtsd.ac.uk)

**Awdur(on) y polisi:**

**Richard Thomas – Peiriannwr Gweithredol Rheoli a Diogelwch Dyfeisiau**

**Rheoli Fersiynau Dogfennau**

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Drafft | RT | 19/05/2022 |
| 0.2 | Adolygu a diweddaru cynnwys BT | BT | 01/06/2022 |
| 0.3 | Adolygu a diweddaru cynnwys BT | BT | 09/12/2022 |
| 0.4 | Adolygu BT/JC, Cymeradwyaeth a diweddariad cynnwys DPIA PO | BT | 09/02/2023 |
| 0.5 | Adolygu a chymeradwyo OLT | BT/JC/RD | 22/02/2023 |
| 0.6 | Adolygu a chymeradwyo gan yr Uwch Gyfarwyddiaeth | BT | 28/02/2023 |
| 0.7 | Adolygu RT/BT, mân newidiadau | RT a BT | 08/05/2025 |

**Statws presennol y Polisi:** Cymeradwywyd

**Dyddiad y daw i rym:** 14.03.2023

**Dyddiad adolygu'r polisi:** Blynyddol